# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (304)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.18

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch penderfyniad Orchard Media and Events Group i roi'r gorau i drefnu Gŵyl Jazz Aberhonddu y flwyddyn nesaf?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2016-17

(30 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar Drydaneiddio'r Rheilffyrdd

(30 munud)

## Cwestiwn Brys

**Eluned Parrott ((Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau'r uned babanod newydd-anedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru i gleifion newydd o ganlyniad i haint?

## 5 Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

(15 munud)

**NDM5903 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Tachwedd 2015.

**Dogfennau Ategol**

Gorchymyn Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 (Addasu Canlyniadol) 2015

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

## 6 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(60 munud)

**NDM5899 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

Gosodwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 8 Mehefin 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 30 Tachwedd 2015.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Dogfennau Ategol**

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 7 Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(5 munud)

**NDM5900 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 8 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

(60 munud)

**NDM5901 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

Gosodwyd y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2015.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 27 Tachwedd 2015.

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

[Memorandwm Esboniadol]

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid]

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol]

## 9 Dadl ar Benderfyniad Ariannol y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

(5 munud)

**NDM5902 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2015